

**S, BL Add. 22356, f. 71r**

**Siarter Hywel Dda**

Charter Howel Dda yw honn yma.

Pan adnewdawd Howel Da, brenhin Kymry, gyfreitheu Kymry ynn hollhawl, ef a gadarnhawd amryfaylon vreineu y amryfaylon dynyon o'e deyrnas ef. Ac yn gyntaf y bob arglwyd eglwysic, megis archesgob Myniw, neu esgob neu abad, y kynyttaod braint brenhinawl y gynhal datleuoed ar eu lleygon drwy gyfreith gyffredin Gymry. Gwedy hynny ef a gynattawd y pob penaeth o'r a vai idaw gymwd neu achwanec gynal brenhinawl lys peunydyawl o swydogyon breiniawl ynn y rifedi y myno megis idaw euhynan, a breint y gynal brenhinawl lys o dadleuoed ynn u wlad ar eu ychelwyr. A gwedy hynny ef a gynnyttawd y bop yuchelwr o'r a vo yn kynal y dir priodawl dann y arglwyd vreint y dir, ac arglwydiaw y vileineid herwyd kydwed amodawl yn Neheubarth a chaethiwed tragowydawl y Gwyned.

**S**

**Siarter Hywel Dda**

Siarter Hywel Dda yw hon yma.

Pan adnewyddodd Hywel Dda, brenin Cymru, gyfreithiau Cymru yn llwyr, fe gadarnhaodd wahanol freintiau i wahanol ddynion o'i deyrnas ef. Ac yn gyntaf i bob arglwydd eglwysig, megis archesgob Tyddewi, neu esgob neu abad, fe ganiataodd fraint frenhinol i gynnal dadleuoedd cyfreithiol dros eu lleygwyr trwy gyfraith gyffredin Cymru. Wedi hynny fe ganiataodd i bob pennaeth a fyddai ganddo gwmwd neu ychwaneg gynnal llys beunyddiol brenhinol o swyddogion breiniol pa mor aml y mynno megis iddo ei hun, a braint i gynnal llys brenhinol o ddadleuoedd yn eu gwlad dros eu huchelwyr. Ac wedi hynny fe ganiataodd i bob uchelwr a fo'n cynnal ei dir priodol dan ei arglwydd fraint ei dir, ac arglwyddiaethu ar ei fileiniaid yn ôl cydwedd amodol yn y Deheubarth a chaethiwed tragwyddol yng Ngwynedd.

**Q, Wynnstey 36, f. 53rb**  
**Llyfr Cynyr ap Cadwgan**

Llyma lyfyr a gyweirawd Kynyr vab Cadwgan, ac a edewis gan Jorwerth y vab, ac a edewis ynteu gan Gadwgan ac Eynon y veibon.

Ac yn gyntaf yd erchis vdunt dysgu tri grwnwal doethineb. Sef yw y tri hynny: mabawl ieuegtit y dysgu, cof y gadw dysc, synnwyr oet y datcanu. Sef achaws yw hynny: y mae yn rodi kyffelyprwyd, po ieuaf y wialen hawsaf vyd y nydu a'e estynu a gwneuthur defnydyeu oheni, ac o tyf eny vo mawr, kynt y tyrr noc yd ystyna. Velly yw pan vo ieuaf y dysger dyn, medalaf vyd y galhon, a hawsaf vyd gantaw gymryt dysc; ac o byd hen nyt mwy synya ar y dysc hwnnw noc ar dremnodeu ereill a welo rac llaw. Am y cof, yr eil grwnwal yw er daet vo dysc dyn o byd drwc y cof, mal difwyn yw idaw a dysco; ac wrth hynny y mae reit y cof a'r dysc ygyt. Trydyd yw peth a dysco o'r mebyt, a bot yn da y cof, ny dyly y datcanu yny vo mywn synnwyr ac oetran a ffrudder; canys deuawt y ieuanc yw bot yn anwastat anwadal, a deuawt prud bot yn wastat.

Pymp clo yssyd yr ygneidaeth: kyntaf yw ofyn Duw. Yr eil yw tremygu yr oes: can bych byw heddiw, ny wdost a vydy vyw euory, ac wrth hynny ny dyly barnv namyn barn iawn. Trydyd yw gwastatrwyd canv: sef yw peth a dysgych, y dyscu yn wastat. Pedwryd yw mynych ofyn. Pymet yw cof y cadw e dysc.

**Q**  
**Llyfr Cynyr ap Cadwgan**

Dyma lyfyr a baratôdd Cynyr fab Cadwgan, ac a adawodd ef i Iorwerth ei fab, ac a adawodd yntau i Gadwgan ac Einion ei feibion.

Ac yn gyntaf fe orchmynnodd iddynt ddysgu tri sylfaen doethineb. Dyma yw'r tri hynny: ieuenctid mabol i ddysgu, cof i gadw dysg, a synnwyr oedran i'w ddatgan. Dyma'r rheswm am hynny: mae'n rhoddi eglureb, po ieuaf y bydd y wialen hawsaf fydd ei phlygu a'i hystyn a gwneud defnyddiau ohoni, ac os tyf hyd nes y bo'n fawr, bydd yn torri'n gynt nag y bydd yn ymestyn. Yn yr un modd po ieuaf y dysger dyn, mwyaf meddal fydd ei galon, a hawsaf fydd iddo dderbyn dysg; ac os bydd yn hen ni fydd yn myfyrio mwy ar y dysg hwnnw nag ar bethau eraill a welo o'i flaen. Am y cof, yr ail sylfaen yw er cystal y bo dysg dyn os bydd ei gof yn wael, mae beth bynnag a ddysgo yn ddiwerth iddo; ac oherwydd hynny mae rhaid cael y cof a'r dysg ynghyd. Trydydd yw beth bynnag a ddysgo dyn o'i ieuenctid, a bod y cof yn dda, nid yw'n iawn ei ddatgan hyd nes y bo mewn synnwyr ac oedran a doethineb; canys arfer yr ifanc yw bod yn anghyson ac anwadal, ac arfer y doeth yw bod yn gyson.

Pum clo sydd i ynadaeth: cyntaf yw ofn Duw. Yr ail yw diystyru'r oes: oherwydd er dy fod yn fyw heddiw, ni wyddost a fyddi fyw yfory, ac oherwydd hynny nid yw'n iawn barnu dim ond barn gyfiawn. Trydydd yw cysonder canu: hynny yw, beth bynnag a ddysgi, dysg ef yn drwyadl. Pedwaredd yw holi'n aml. Pumed yw cof i gadw'r dysg.

**Z, Peniarth 259B, f. 52ra**

**Saith Wragedd a Mamwys**

Saith wragedd a ddyly ev meibion gaffel mamwys. Vn yw gwraic a wysdler dros genedl, a chaffel mab a hi ynghwysdyl, ef a ddyly vamwys. Ail yw gwraic a roddo kenedl i allddvd, o chaif vab ef a ddyly vamwys. Trydydd yw mab gwraic a gollo tref i dad o achos dial gwr o genedl i vam. Pedwerydd yw mab morwyn a ddyker trais arnai ar ddifaith, kanys y brenin bie kadw y difaith; am nas kedwis, ef a ddyly gymell mamwys o'i mab. Pymed yw gwraic a ddyko mab yn kyfreithiawl a'i ddywad o'r gwr yn kyfreithiawl, ni aill y vam i ddwyn i'r ail tat, ac wrth hynny ef a ddyly gaffel mamwys. Chweched yw gwraic a ddyko allddvd i drais. Seithfed yw mab gwraic vvd a ymarddelwo o genedl wedi bo marw i vam; o gwedir yn kyfreithiawl, ef a ddyly gaffel mamwys.

**Z**

**Saith Wragedd a Mamwys**

Saith o wragedd y mae gan eu meibion hawl i famwys. Un yw gwraig a rodder yn wystl dros genedl, a hithau'n cael mab tra bo'n wystl, mae ganddo ef hawl i famwys. Ail yw gwraig y rhoddo ei chenedl hi i alltud, os caiff hi fab, mae ganddo ef hawl i famwys. Trydydd yw mab gwraig a gollo dref ei dad oherwydd dial gŵr o genedl ei fam. Pedwerydd yw mab morwyn a dreisier ar dir difaith, oherwydd dyletswydd y brenin yw cadw'r tir difaith; am na chadwodd ef hwnnw, fe ddylai ef gymell mamwys ar gyfer ei mab. Pumed yw gwraig a dadogo ei mab yn gyfreithiol ac yntau'n cael ei wrthod gan y gŵr yn gyfreithiol, ni all y fam ei dadogi i ail dad, ac oherwydd hynny mae ganddo ef hawl i famwys. Chweched yw gwraig y dygo alltud drais arni. Seithfed yw mab gwraig fud a fyddo'n ceisio cenedl wedi i'w fam farw; os gwedir ef yn gyfreithiol, mae ganddo ef hawl i famwys.

**Z, Peniarth 259B, f. 67va**

**Ffyrdd y bydd Arglwydd yn Cael Da ei Wŕ**

Llyma y gyniver forth y dily arglwydd da i wr yn kyfreithiawl. Naw affaith galanas, a naw affaith lladrad, a naw affaith tan; a'i naw tavodiawc, a'i viij bynvarch, ac ehebawc, a bual, a swllt avr; a thor llong heb ddiank i fferchenawc, ac a vwrio mor i'r tir o'r a vo ymraint y mor tri llanw a thri thrai heb veddiant neb arnaw; a gwerth lleidr, a devddeng mvw dirwy o drais a lladrad ac ymladd; a'i rwydav, a'i amobr a'i abediw, a'i gamlwrw, a'i vvwch lvdd a'i vvwch gwyl vor; a'i dayogav, a'i wesdvay, a'i vayrioni, a'i ebran; a gwaith i gan i wyr a ddyly gwnevthvr gwaith iddo; a chyfraith i hely, a gwerth halogi i dir, ssef yw hyny pvnt o achos kyfraith ladd kelain, a gair yw hyny o dda y llowrvdd o'r pryd bigilidd; a da halocty a foadvr, a thavodwely; a'i veirch penill, a'i voch a'i vel i gan y tayogav i werth ymlayn arall; a gwerth y tervynav ac ev kosp; a ffob da diperchenawc; a tholl i velin.

**Z**

**Ffyrdd y bydd Arglwydd yn Cael Da ei Wŕ**

Dyma'r sawl ffordd y bydd gan arglwydd hawl i eiddo ei wŕ yn gyfreithiol. Naw affaith galanas, a naw affaith lladrad, a naw affaith tân; a'i naw tafodiog, a'i wyth bynfarch, a hebog, a chorn bual, a thrysor aur; a llongddrylliad heb i'w pherchennog ddianc, a beth bynnag a fwrio'r môr i'r tir a fo ym mraint y môr am dri llanw a thri thrai heb i neb feddu arno; a gwerth lleidr, a deuddeg buwch dirwy o drais a lladrad ac ymladd; a'i rwydau, a'i amobr a'i ebediw, a'i gamlwrw, a'i fuwch luydd a'i fuwch gŵyl fôr; a'i daeogion, a'i westfâu, a'i faer diroedd, a phorthiant ei feirch; a gwaith gan ei wŕ y mae'n iawn iddynt wneuthur gwaith iddo; a chyfraith ei hela, a gwerth halogi ei dir, sef yw hynny punt yn sgil cyfraith lladd celain, a hynny yw beth bynnag a geir o dda y llofrudd o bryd i'w gilydd; a da o dŷ person cysylltiedig â lladrad a ffoadur, a thafod weli; a'i feirch a fagwyd mewn stabl, a'i foch a'i fêl gan y taeogion sydd i'w werthu iddo o flaen pawb arall; a gwerth ei derfynau a'r gosb amdanynt; a phob da diberchennog; a tholl ei felin.

**H, Peniarth 278, t. 47**

**Natur Cyfraith**

Addfwyn yw cyfreith, a bonheddic, a chyfiawn, a huawdyl, herwydd anyan a rheswm naturiawl; nyt y un dyn, namyn y'r cyffredin gwlat y may da; nyt er dirgeledicrwydd y gwnaethbwyd, namyn y derfynu defawt gwlat (a'r angenreidieu cyhoeddawc) hagen a feddo ar y lle a'r amser: rheith yw crynodep a chyfarwyddyt cyhoeddawc rhac tywyllwch, twyll, a gorthrymder pleidieu.

Llyna paham y mae addfwyn cyfreith, am nat grym yng cyfreith neb anaddfwyn yn tystiolaeth o'r byt, am nat geir y eir, ac am y bot yn neilltuaw ceith ac alltudyon y wrth cyfreith cyffredin.

Llyma paham mae bonheddic cyfreith: Hywel Dda, frenhin Cymbru, a'y ddylyedogyon a'y ffuryfhawdd o ddoethineb y calonneu a'e corffeu e hunein, ac am hynny, etifedd y brenin hwnnw ynt cyfreith a defawt; am hynny, na ddyly yr un fot yn gwrthwyneb y'w gilydd mwy no brodyr, ac o bydd defawt yn erbyn cyfreith, nyt catwadwy: llyna paham y dylu frodyr fot yn duhun, pob un a ddyly cynnal gyt a'e gilydd y ddlyet o lw a da; felly cyfraith a defawt.

Llyma paham y may cyfiawn cyfreith, gorchymyn y may y bawb na wnel cam a'y gilydd, a gedu y bawb yr eiddaw e hun; a chospi y neb a wnel amgen, os dyllynir.

Huawdyl cyfreith paham? Nyt oes eissieu ynndi, canyt eissieu hynn aller y drossi ar ddyall a chyfflybrwydd, canys ydiw yn terfynu pob cynnen ac anosbarth.

Mam y cyfreith yw anufyddawt, canys pa na bai anufyddawt ni buassei reit gwneuthur cyfreith; canys yr anufyddawt yw yr angcyfreith, yr angcyfreith y sydd yn erbyn cyfreith, cyfreith a ddieil yr ancyfreith.

## H

### Natur Cyfraith

Addfwyn yw cyfraith, a bonheddig, a chyfiawn, a huawdl, yn ôl anian a rheswm naturiol; nid i un dyn, ond y mae'n dda i gyffredin gwlad; nid er dirgelwch y'i gwnaethpwyd, ond yn hytrach i bennu arfer gwlad (a'r angenrheidiau cyhoeddus) ac a feddo ar y lle a'r amser: rhaith yw crynodeb a chyfarwyddyd cyhoeddus rhag tywyllwch, twyll, a gorthrymder pleidiau.

Dyma paham y mae cyfraith yn addfwyn, am nad oes grym yng nghyfraith i neb sydd yn anaddfwyn mewn tystiolaeth o'r byd, am nad gair fydd ei air, ac am ei bod yn neilltuo dynion caeth ac alltudion oddi wrth gyfraith gyffredin.

Dyma paham y mae cyfraith yn fonheddig: Hywel Dda, brenin Cymru, a'i wŷr bonheddig a'i lluniodd o ddoethineb eu calonnau a'u cyrff eu hunain, ac oherwydd hynny, etifedd y brenin hwnnw yw cyfraith ac arfer; oherwydd hynny, nid yw'n iawn i'r naill fod yn wrthwynebus i'r llall yn fwy na brodyr, ac os bydd arfer yn erbyn y gyfraith, nid yw'n gadwadwy: dyna pam y mae'n iawn i frodyr fod yn gytûn, mae'n iawn i bob un gynnal ei hawl gyda'i gilydd yn ôl llw a daioni; yn yr un modd, cyfraith ac arfer.

Dyma paham y mae cyfraith yn gyfiawn, mae'n gorchymyn i bawb i beidio â gwneud cam â'i gilydd, ac mae'n caniatáu i bawb ei eiddo ei hun; a chosbi pwy bynnag a wnêl yn wahanol, os eir i'r gyfraith.

Paham y mae cyfraith yn huawdl? Nid oes diffyg ynddi, oherwydd nid oes diffyg yn yr hyn y galler ei drosi ar ddeall a chyffelybrwydd, gan ei fod yn terfynu pob cynnen ac afreoleiddra.

Mam y gyfraith yw anufudd-dod, canys pe na bai anufudd-dod ni fuasai rhaid gwneuthur cyfraith; canys yr anufudd-dod yw'r anghyfraith, yr anghyfraith sydd yn erbyn cyfraith, a chyfraith a ddial yr anghyfraith.